**CYMDEITHAS HANES PLAID CYMRU HISTORY SOCIETY**
**Cofnodion**

**08.12. 2014**

**1 Gweinyddiaeth**

i Adroddiad 08.12.14

ii Materion yn codi (dim yn cael ei drafod unrhyw fan arall)

'Oeddech chi yn Yr Alban'? (Refferendwm) Hoffai D.W. Gael rhagor o adroddiadau a lluniau I'w rhoi ar ein gwefan.

iii. Gohebiaeth (dim yn cael ei drafod unrhyw fan arall)

Ebyst: Llythyr o ymddeoliad gan Yvonne Balakrishnan.

Bydd I.B. yn ymddeol fel trysorydd yn y misoedd nesaf oherwydd gwaeledd. Bydd A.J. yn ysgrifennu ati yn mynegi y golled fawr fydd ar ei hol. Mae cyfraniad Yvonne mewn cyfarfodydd, fel trefnydd arddangosfeydd ac fel trysorydd wedi bod yn werthfawr.
Bydd AJ yn ymddiswyddo fel ysgrifennydd ar ol Etholiadiadau Westminster ond bydd yn dal yn aelod gweithgar o'r gymdeithas.

Gofynodd Alexander Price is wybodaeth am Blaid Cymru.
Atebwyd gan Dafydd Williams, Dafydd Wigley a Syd Morgan

**2 Prosiectau**
i Plac Saunders Lewis – Cafwyd ar wybod gan Gangen Penarth bod perchennog presennol y ty yn Westbourne Rd. ble bu S.I. yn byw yn fodlon trafod rhoi plac er cof amdano ar y ty.

ii Cartref D.J. Williams yn y Rhondda. Cafwyd ebost oddiwrth Geraint Davies yn dweud NAD oes iii plac I D.J. ar y ty. Bydd E.B. yn gwneud ymholiadau.

iii Dathlu penblwydd 90 y Blaid: D.W. a E.B. dim newyddion

iv Deunydd Hanes y Blaid: Edward Llywelyn a Huw Evan
Mae gan Edward Llywelyn (Abertawe) bapurau Plaid Cymru o'r 50au yn cynnwys toriadau o bapurau newyddion yn trafod carcharu Chris Rees yng ngharchar Abertawe.
Huw Evans (Castell Nedd) i'w hanfon at A. J. – baner a'r geiriau "WELSH WORKERS DEMAND WORK IN WALES" Mae rhifyn Hydref 1976 o'r Welsh Nation a ffotograff mawr o'r demo. Bydd papurau Huw yn cael eu rhoi I Archifdy Gorllewin Morgannwg.

v 'Atgofion Pleidwyr'
Ben Jones: Recordwyd Cyng. Colin Mann (Caerffili) a Huw Jackson (cyn ysgrifennydd Cangen Llundain)
Eluned Bush: Heb gael cyfle eto.
Dafydd Williams: Recordwyd Cyng. Michael Williams (Dinbych y Pysgod) a Dr. Eirwen Pryce (Abertawe)

**3 Adroddiadau a thrafodaethau**

i Ariannol/aelodaeth
Aelod newydd – Etholaeth Gogledd Caerdydd.
Ariannol : Dim adroddiad oherwydd gwaeledd.

ii Gwefan
Daeth lluniau gan Tudur Owen o Feirion e.e. Etholiad Gyffredinol 1970, Teyrnged i Clive Reid (Abertawe), "War office creates havoc in Wales" 1947

iii Gweplyfr Dim adroddiad oherwydd gwaeledd.

**4 Cyfarfodydd**

i Cynhadledd Wanwyn, Caernarfon: A.J. I drafod gyda Ty Gwynfor ynglyn a'r 'pop up'. E.B. a D.W. i drefnu bod 'flyers' yn cael eu dosbarthu.

Eisteddfod Awst 2015. D.W. yn gyfrifol am gael siaradwr/wraig. Y teitl fydd Islwyn Ffowc Ellis

ii Cynhadledd y Blaid, Hydref 2015 i'e drafod yng Nghyfarfod fis Chwefror.

5 Cyhoeddusrwydd

Y Ddraig Goch, Welsh Nation, E-bulletin: E.B. a D. W.

**6 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**
6.30pm Nos Lun, 64 St. Michael's Rd, Llandaf, Caerdydd

Os oes ganddoch unrhyw sylwadau I'w gwneud ynglyn a'r Cofnodion neu unrhyw syniadau ynglyn a'r modd y gallwn ddathlu penblwydd y blaid yn 90 ebostiwch erbyn y 21ain Chwefror.